Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Santes Fair
# Longford Road
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 1TR

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**©Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/02/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn gwasanaethu tref Caergybi a'r ardal gyfagos ar Ynys Môn. Mae 188 o ddisgyblion tair i 11 oed yn yr ysgol, gan gynnwys 25 disgybl yn y feithrinfa. Mae gan yr ysgol saith dosbarth. Mae gan tua 32% o ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn yn uwch o lawer na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Daw bron pob un o'r disgyblion o gartrefi lle'r Saesneg yw'r brif iaith ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ethnigrwydd y disgyblion yw gwyn Prydeinig i raddau helaeth, ac mae ethnigrwydd y gweddill yn gymysg yn bennaf. Dywed yr ysgol fod gan tuag 20% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2007. Penodwyd y pennaeth presennol ym 1994.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn 2013-2014 oedd £3,539 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ar Ynys Môn yw £9,156 a'r lleiafswm yw £2,901. Mae Ysgol y Santes Fair yn safle 44 o'r 48 ysgol gynradd ar Ynys Môn o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn cyflawni safonau da mewn dysgu a lles;
- mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at yr ysgol ac mae'r cyfraddau presenoldeb yn rhagorol;
- mae'r berthynas rhwng y staff a'r disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn; ac
- mae mwyafrif yr addysgu yn dal diddordeb disgyblion yn effeithiol ac yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd da.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae gan y pennaeth a'r llywodraethwyr weledigaeth glir i greu amgylchedd lle y mae hunan-barch pob plentyn yn tyfu trwy werthoedd Cristnogol;
- mae ffocws addas gan gynllun datblygu'r ysgol ar godi safonau llythrennedd a rhifedd;
- mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn yr ysgol; ac
- mae amrywiaeth o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu a lles disgyblion.

Fodd bynnag:

- nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol, fel y Cyfnod Sylfaen, yn cael eu rhoi ar waith yn gyson; ac
- nid yw arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau o weithgareddau hunanarfarnu yn gyson i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella ar hyd yr ysgol gyfan.

## Argymhellion

A1 Rhoi egwyddorion addysg y Cyfnod Sylfaen ar waith yn gyson fel bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddewis gweithgareddau a mynd ar eu trywydd yn annibynnol

A2 Ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion fel y gallant ysgrifennu'n greadigol, ymchwilio'n annibynnol a chymhwyso'u medrau mathemategol ar lefelau sy'n cyfateb i'w gallu

A3 Gwella ansawdd asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu

A4 Sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion, yn enwedig ar ddiwedd cyfnodau allweddol

A5 Sicrhau bod staff â chyfrifoldebau ychwanegol yn cyflawni eu rolau arwain yn llwyddiannus

A6 Sicrhau bod system fonitro drylwyr yn llywio'r broses hunanarfarnu, a chryfhau'r cysylltiad rhwng deilliannau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n briodol i'w hoedran. At ei gilydd, gwnânt gynnydd da erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando cadarn wrth iddynt fynd drwy'r ysgol. Siaradant yn hyderus mewn grwpiau ac yn unigol am eu gwaith, eu teimladau ac mewn ymateb i gwestiynau gan athrawon.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau darllen. Datblygant ystod addas o strategaethau i'w helpu i ddarllen er pleser a dealltwriaeth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at ddarllen. Darllenant yn hyderus, yn rhugl, a chyda dealltwriaeth dda. Maent yn esbonio rolau cymeriadau mewn storïau yn dda ac yn gallu amgyffred negeseuon o'r testun.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn llunio darnau da o ysgrifennu sy'n dangos ymwybyddiaeth ddatblygol o batrymau sillafu ac atalnodi sylfaenol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n bwrpasol ac yn cynhyrchu gwaith sydd o safon dda yn gyson, yn enwedig wrth ysgrifennu i adrodd am ddigwyddiadau mewn gwersi Saesneg ac mewn gwaith pwnc. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflwyno'u gwaith ysgrifenedig yn arbennig o dda. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn cynhyrchu amrywiaeth digon eang o waith ysgrifenedig annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth glir o fedrau rhif, siâp, mesur a thrafod data mewn llyfrau a gwersi mathemateg. Datblygant eu medrau rhifedd yn gynyddol wrth iddynt fynd drwy'r ysgol a'u cymhwyso'n briodol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso medrau mathemategol yn annibynnol i ddatrys problemau neu i archwilio'n ddigon aml mewn gwersi mathemateg neu ar draws y cwricwlwm, yn enwedig ar y lefelau uwch.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, dilynant gyfarwyddiadau ac ymateb i gwestiynau yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio ystod briodol o eirfa. Darllenant yn dda o destunau Cymraeg addas ac ysgrifennant ddarnau byr gan ddefnyddio ystod dda o batrymau brawddegau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda. Mae disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn gwneud yr un cynnydd â disgyblion eraill yn gyffredinol.

Yn 2013, roedd cyflawniadau disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn y deilliant 5 disgwyliedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn uwch o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Rhoesant yr ysgol yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru. Mewn medrau personol a chymdeithasol, roedd cyflawniadau disgyblion yn cyfateb i gyfartaledd y teulu ac yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch na'r disgwyl, sef deilliant 6, roedd perfformiad disgyblion yn uwch o lawer na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan yn y tri maes dysgu a aseswyd.

O gymharu â theulu'r ysgol, roedd perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013 yn dda iawn mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel 4 ddisgwyliedig a'r lefel 5 uwch. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig neu uwch ym mhob un o'r tri phwnc gyda'i gilydd yn uwch o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar draws Cymru. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, sef lefel 5, roedd perfformiad yr ysgol yn ei rhoi yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar draws pob pwnc.

Yn y blynyddoedd diwethaf, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad merched wedi bod yn well na pherfformiad bechgyn bron bob amser.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac mae ganddynt agweddau da at ddysgu. Maent yn falch o fod yn aelodau o gymuned yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o sut i gadw'n heini ac yn iach trwy wneud dewisiadau da o ran ffordd o fyw, sy'n cynnwys bwyta deiet cytbwys a gwneud ymarfer corff. Dangosant hyn drwy ddefnyddio siop ffrwythau'r disgyblion eu hunain yn rheolaidd ac wrth i nifer dda ohonynt gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

Ar draws yr ysgol, mae lles ysbrydol a moesol disgyblion wedi'i ddatblygu'n dda. Mae ymddygiad disgyblion mewn gwersi ac yn ystod amseroedd chwarae yn dda yn gyson. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dilyn arferion yr ystafell ddosbarth yn dda o oedran ifanc iawn ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Wrth i ddisgyblion fynd drwy'r ysgol, datblygant fedrau rhesymu moesol da sy'n eu galluogi i drafod materion yn effeithiol a gwerthfawrogi barn pobl eraill.

Mae cyngor yr ysgol a'r pwyllgor gwyrdd wedi hen ennill eu plwyf ac maent yn cynrychioli barn disgyblion mewn modd cymwys. Maent wedi helpu i wella'r amgylchedd awyr agored drwy sefydlu gardd lysiau a thrwy godi arian i brynu offer chwarae. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at weithgareddau yn y gymuned leol.

Mae cyfraddau presenoldeb yn rhagorol yn gyson, sef tua 95%. Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi'i rhoi yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu addas sy'n bodloni anghenion llawer o ddisgyblion. Mae ymweliadau addysgol, er enghraifft â 'Danger point', lle y mae disgyblion yn dysgu sut i osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd peryglus, ynghyd ag ymwelwyr â'r ysgol, yn ychwanegu'n dda at y cwricwlwm. Mae ystod amrywiol o weithgareddau allgyrsiol poblogaidd yn ategu dysgu disgyblion yn briodol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae ansawdd y profiadau dysgu yn amrywio'n ormodol o ddosbarth i ddosbarth. Mewn lleiafrif o wersi, lle y mae athrawon yn cynllunio ar gyfer dysgu drwy chwarae, mae disgyblion yn datblygu'n dda yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau diddorol a difyr. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i fod yn greadigol a chyfeirio'u dysgu eu hunain. Mae gorddefnyddio taflenni gwaith yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion. At ei gilydd, mae'r cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 yn rhoi sylw addas i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn datblygu'n dda mewn gwersi iaith a mathemateg dynodedig ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r cynllunio gan athrawon yn cynnig ystod brin o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n greadigol, i archwilio'n annibynnol neu i ddatblygu eu medrau meddwl.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer Cymraeg fel ail iaith yn dda. Mae hyn wedi arwain at safonau Cymraeg ysgrifenedig a llafar gwell. Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn naturiol drwy gydol y diwrnod ysgol ac yn hybu'r iaith yn effeithiol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, er enghraifft drwy ymweliadau â'r oriel gelf leol a thrwy ddysgu am Gymry enwog.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy. Mae rôl glir gan y pwyllgor gwyrdd o ran ailgylchu, arbed ynni a datblygu ardal yr ardd. Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'u rôl fel dinasyddion byd-eang, er enghraifft trwy gysylltiadau â chartref i blant amddifad yn Zimbabwe.

## Addysgu: Digonol

Yn gyffredinol, mae mwyafrif yr addysgu yn ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol ac yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd da. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, yn enwedig o ran eu hymddygiad a chyflwyniad eu gwaith. Mewn mwyafrif o wersi, mae'r addysgu yn symbylu disgyblion ac yn cynnal eu diddordeb yn effeithiol. Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n herio disgyblion i feddwl a chymhwyso'u medrau'n briodol. Maent yn modelu neu'n esbonio tasgau'n dda ac yn sicrhau bod disgyblion yn deall sut i lwyddo yn eu gwaith. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw lefel yr her a natur y tasgau bob amser yn cyfateb yn ddigon da i anghenion disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl. O ganlyniad, mae rhediad y dysgu'n gyfyngedig ac nid yw'r disgyblion mwy abl yn cyflawni cymaint ag y gallent.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff cymorth yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ac yn eu holi'n effeithiol i archwilio'u dealltwriaeth. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu. Mae llawer o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar eu cyflawniadau. Fodd bynnag, nid yw'r marcio gan athrawon bob amser yn cysylltu'n dda â ffocws gweithgareddau dysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn defnyddio adborth ysgrifenedig fel mater o drefn i wella'u gwaith yn effeithiol. At ei gilydd, nid yw athrawon yn cynnwys disgyblion yn ddigonol wrth asesu eu cynnydd eu hunain neu gynnydd disgyblion eraill.

Mae gan yr ysgol systemau addas i gofnodi cynnydd disgyblion unigol. Mae staff yn dadansoddi canfyddiadau o asesiadau, er enghraifft, data o brofion darllen, ac yn defnyddio'r wybodaeth i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu. Nid oes gan yr ysgol systemau cyson ar gyfer safoni asesiadau athrawon yn allanol neu'n fewnol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen neu gyfnod allweddol 2.

Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth werthfawr am gynnydd, cyflawniad a lles eu plant drwy gyfarfodydd rheolaidd â rhieni ac adroddiadau blynyddol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig lefel gyson dda o ofal, cymorth ac arweiniad i'r holl ddisgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at safon uchel lles disgyblion. Mae'r ysgol yn meddu ar drefniadau priodol i hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae addoli bob dydd yn hybu datganiad cenhadaeth yr ysgol yn llwyddiannus. Mae cysylltiadau lleol cryf gyda'r eglwys a'r gymuned ehangach yn helpu i ategu datblygiad ysbrydol, moesol ac emosiynol disgyblion yn effeithiol, er enghraifft trwy rannu gwasanaethau eglwys gyda'r plwyf lleol.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o asiantaethau a gwasanaethau allanol yn dda i gynnig arweiniad a chymorth defnyddiol i staff, disgyblion a rhieni, lle bo'r angen. Mae cymorth wedi'i dargedu'n glir ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion wedi arwain at gyfraddau presenoldeb cadarn, perthynas dda iawn gyda rhieni a lefelau cadarnhaol o gyflawniad academaidd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion a darparu strategaethau ymyrryd targedig o ansawdd da iddynt. Mae cynorthwywyr addysgu yn cynnig cymorth effeithiol ar gyfer cyflwyno rhaglenni penodol sy'n galluogi'r disgyblion hyn i wneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos gofalgar a chynhwysol iawn. Mae'n trin yr holl ddisgyblion yn gyfartal ac yn hybu parch tuag at amrywiaeth a chydraddoldeb yn llwyddiannus. Mae'r holl staff yn hybu cynhwysiant yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cynnig

cyfleoedd mynych i ddisgyblion ddangos gofal ac ystyriaeth tuag at eraill yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r awyrgylch digynnwrf yn holl ardaloedd yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion.

At ei gilydd, mae adeiladau'r ysgol o ansawdd da. Mae'r ysgol yn meddu ar ystod dda o adnoddau dysgu ac maent yn briodol ar gyfer anghenion y disgyblion. Mae'r arddangosiadau ar draws yr ysgol yn rhai deniadol. Maent yn hyrwyddo ac yn dathlu dysgu a chyflawniadau disgyblion, a'r ethos Catholig, yn llwyddiannus. Mae'r amgylchedd awyr agored yn adnodd gwerthfawr. Mae datblygiadau diweddar wedi gwella'r cyfleoedd ar gyfer dysgu a chwarae yn yr awyr agored, er enghraifft prynu offer chwarae mawr a chreu gardd.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir i greu amgylchedd lle y mae hunan-barch pob plentyn yn cynyddu trwy werthoedd Cristnogol. Mae'r pennaeth, y staff a'r corff llywodraethol yn rhannu ymrwymiad i hybu lles disgyblion. Maent wedi creu systemau sy'n helpu'r ysgol i redeg yn effeithiol o ddydd i ddydd ac i gynnal lefelau uchel o berfformiad academaidd a phresenoldeb. Mae'r ysgol yn gweithredu ac yn rheoli newid yn gysylltiedig â lles disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol, fel y Cyfnod Sylfaen, yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn cyflawni eu rolau'n gydwybodol. Mae rolau a chyfrifoldebau staff yn glir ac mae ymdeimlad cadarn o waith tîm yn yr ysgol. Mae'r rheolaeth ar berfformiad yn bodloni canllawiau statudol ac mae ganddi gysylltiadau priodol â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae arweinwyr uwch yn meddu ar drosolwg sicr o'r meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol systemau trylwyr i sicrhau bod staff â chyfrifoldebau ychwanegol yn cyflawni eu rolau arwain yn llwyddiannus.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac wedi ymrwymo i les ei disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddata perfformiad yr ysgol, ei chryfderau a'i blaenoriaethau at y dyfodol. Mae llywodraethwyr wedi cyflwyno heriau dilys i'r ysgol er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau strategol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan yn y broses hunanarfarnu. Maent yn defnyddio ystod briodol o dystiolaeth i'w helpu i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Maent yn dadansoddi data'n rheolaidd, yn arsylwi gwersi ac yn craffu ar lyfrau disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio canfyddiadau o weithgareddau hunanarfarnu'n gyson i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella ar hyd yr ysgol gyfan. Nid yw arfarniadau o bynciau a gwersi bob amser yn canolbwyntio digon ar ddeilliannau disgyblion.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys ffocws addas ar weithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynllunio gweithgareddau gwella'n ddigon manwl i'w galluogi i asesu cynnydd yn gywir. Nid oes gan dargedau yng nghynllun datblygu'r ysgol feini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n ddigonol ar welliannau mesuradwy yng nghynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae effaith strategaethau arfaethedig ar ddeilliannau disgyblion yn aneglur yn rhy aml.

Mae arweinwyr yr ysgol yn mynd ati i geisio barn rhieni a gweithredu ar eu canfyddiadau. Er enghraifft, arweiniodd ceisiadau rhieni am weithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion iau at sefydlu 'Clwb Cymraeg' poblogaidd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau cadarn gyda rhieni ac ystod o asiantaethau eraill, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion. Mae rhaglen effeithiol ar gyfer dysgu teuluol yn ategu partneriaeth dda â rhieni. Mae hyn yn helpu rhieni i ddatblygu medrau darllen eu plant ac i ddysgu am strategaethau disgyblaeth cadarnhaol gan ddefnyddio canmoliaeth ac anogaeth.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos â'r cylch chwarae lleol sy'n rhannu safle'r ysgol ac mae'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn clybiau cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae trefniadau effeithiol sy'n sicrhau bod disgyblion yn pontio'n hwylus i'r ysgol uwchradd leol. Mae ystod dda o weithgareddau'n ategu'r trefniadau pontio hyn yn dda. Mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau a rennir yn dda yn ei chlwstwr o ysgolion, er enghraifft trwy gyflogi athro Cymraeg ail iaith arbenigol ar y cyd.

Mae partneriaeth hynod effeithiol yn bodoli gyda'r grŵp Cymunedau yn Gyntaf lleol. Er enghraifft, mae wedi ariannu cymorth ar gyfer disgyblion difreintiedig ac mae'n cynnal clwb brecwast a gaiff ei fynychu'n dda. Mae perthynas gadarn ag elusen genedlaethol i blant ac adran seicoleg Prifysgol Cymru yn cael dylanwad cadarnhaol ar les disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pennaeth a'r staff yn rheoli adnoddau'n ofalus ac mae'r ysgol yn monitro'i gwariant yn rheolaidd. Defnyddiant staff addysgu a chymorth yn briodol. Mae'r ysgol yn defnyddio staff â gwybodaeth arbenigol yn dda. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio athro Cymraeg ail iaith arbenigol ar draws yr ysgol i godi safonau. Mae trefniadau cadarn yno i ddatblygu medrau staff cymorth i gyflwyno rhaglenni ymyrryd. Mae hyn yn ategu'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn trefnu amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn briodol.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr a rheolwyr yn dyrannu adnoddau ariannol yn briodol i flaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn adolygu gwariant yr ysgol yn barhaus ac mae ganddynt systemau addas i arfarnu effaith gwariant ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, cyflawnodd y rhan fwyaf o ddisgyblion y deilliant 5 disgwyliedig mewn datblygu eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol ar y cyd. Roedd hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac mae'n rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o gymharu â phob ysgol debyg ar draws Cymru. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd uwchlaw'r deilliant disgwyliedig ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad medrau personol a chymdeithasol disgyblion. O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru, mae'r perfformiad hwn yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer cyrhaeddiad mewn medrau iaith a medrau mathemategol ac yn y 50% uwch ar gyfer datblygiad medrau personol a chymdeithasol disgyblion.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu'r lefel uwch na'r disgwyl mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn dda iawn yn gyson. Mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion a chyfartaledd Cymru am y pedair blynedd diwethaf ac mae hyn bron bob amser yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

O gymharu perfformiad cymharol bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad merched wedi bod yn well na pherfformiad bechgyn yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae hyn i'w weld yn amlwg yn y deilliant uwch lle mae gwahaniaeth sylweddol mewn perfformiad ar draws pob maes dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn yn gyffredinol, yn enwedig ar y lefel uwch mewn Saesneg. Nid yw disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 96 | 96 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 96 | 0 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 96 | 96 | 0 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 96 | 96 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 96 | 96 | 0 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 96 | 96 | 0 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 96 | 96 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 96 | 96 | 0 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 96 | 96 | 0 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 96 | 95 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 95 | 91 | 4 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 78% | 22% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 95 | 92 | 3 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 23 | 15 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 23 | 17 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 23 | 15 | 8 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 23 | 18 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 23 | 15 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 65% | 30% | 4% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 23 | 17 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 23 | 18 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 22 | 15 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 23 | 16 | 4 | 0 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 70% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 23 | 17 | 6 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 23 | 16 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 23 | 14 | 5 | 1 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 61% | 22% | 4% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 23 | 13 | 9 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 57% | 39% | 4% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 23 | | 14<br>61% | 8<br>35% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | | 62% | 31% | 4% | 2% | | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 23 | | 15<br>65% | 5<br>22% | 1<br>4% | 0<br>0% | 2 | | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | | 44% | 39% | 7% | 2% | | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 23 | | 18<br>78% | 5<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | | 55% | 39% | 2% | 0% | | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 20 | | 11<br>55% | 8<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | | 42% | 34% | 4% | 1% | | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 23 | | 16<br>70% | 7<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | | 53% | 38% | 5% | 1% | | | |
| The school is well run. | 22 | | 15<br>68% | 7<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | | 61% | 33% | 3% | 1% | | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Richard Lloyd | Arolygydd Cofnodol |
| Andrew Thorne | Arolygydd Tîm |
| James Jones | Arolygydd Lleyg |
| Nia Daly | Arolygydd Cymheiriaid |
| Frances Thomas | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.